# CYFARFOD BLYNYDDOL BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 18 MEHEFIN 2021

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian B.Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr) a'r Athro Iwan Davies a'r Athro Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd L. Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn Gadeirydd ar gyfer 2021/22.**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mark Pritchard yn Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jane Richardson (Cadeirydd Grwp Swyddogion Gweithredol).

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2021 fel rhai cywir.

## 7. BLAEN RAGLEN WAITH Y BWRDD UCHELGAIS – GORFFENNAF 2021 – GORFFENNAF 2022

Cyflwynwyd – blaen raglen waith y Bwrdd am y cyfnod Gorffennaf 2021 – Gorffennaf 2022.

Mewn ymateb i sylw, cadarnhawyd bod y swyddogion wedi cymryd i ystyriaeth bod yr achosion busnes yn drwm, ac mai dau yn unig y gellid ymdrin â hwy mewn un cyfarfod.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Blaen Raglen Waith y Bwrdd Uchelgais – Gorffennaf 2021 – Gorffennaf 2022**.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.10 y.h.

**CADEIRYDD**